

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1188

Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Rhagfyr 2022 yn union ar ôl Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022(1).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cyfarwyddyd” (“*direction*”) yw cyfarwyddyd a wneir, neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud, o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002(2) ar y sail a nodir yn is-adran (4) (a), (b) neu (d) o'r adran honno(3);

ystyr “Deddf 1989” (“*the 1989 Act*”) yw Deddf Plant 1989(4);

ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(5);

ystyr “gorchymyn perthnasol” (“*relevant order*”) yw—

(a) gorchymyn a wneir gan Lys y Goron, y Llys Apêl, y Llys Milwrol neu Lys Apêl y Llys Milwrol bod yr unigolyn o dan sylw yn cael ei dderbyn i'r ysbyty, neu

(b) gorchymyn gwarcheidiaeth(6);

mae i “mangre ddomestig” (“*domestic premises*”) yr ystyr a roddir gan adran 19(6) o'r Mesur;

ystyr “y Mesur” (“*the Measure*”) yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr “wedi ei anghymhwyso” (“*disqualified*”) yw wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru yn warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae person (“P”) wedi ei “gael wedi cyflawni” trosedd—

(a) os yw P wedi ei euogfarnu o drosedd;

(b) os yw P wedi ei ddyfarnu'n ddieuog o drosedd oherwydd gorffwylledd;

(c) os cafwyd bod P o dan anabledd a'i fod wedi gwneud y weithred y mae wedi ei gyhuddo ohoni mewn cysylltiad â throsedd o'r fath;

(1) [O.S. 2022/1066 \(Cy. 224\)](#).

(2) [2002 p. 32](#).

(3) Diddymwyd adran 142 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ([p. 47](#)) ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn erthyglau 4(2) a (3), a 7 o [O.S. 2009/2611](#).

(4) [1989 p. 41](#).

(5) [2000 p. 43](#).

(6) Fel y diffinnir “guardianship order” yn adran 30(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaeth Llysoedd 2000 ([p. 43](#)) (“Deddf 2000”). Diddymwyd adran 30 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 5 o [O.S. 2012/2231](#).

- (d) os yw P, ar neu ar ôl 6 Ebrill 2007, wedi cael rhybuddiad gan swyddog heddlu mewn cysylltiad â throsedd;
 - (e) os yw P, ar neu ar ôl 8 Ebrill 2013, wedi cael rhybuddiad ieuencid gan swyddog heddlu mewn cysylltiad â throsedd y mae P wedi ei chyfaddef(7).
- (3) Yn y Rheoliadau hyn, mae P wedi ei gael wedi cyflawni trosedd sy'n "gysylltiedig â" throsedd os yw P wedi ei gael wedi cyflawni trosedd fel a ganlyn—
- (a) ceisio cyflawni'r drosedd honno, neu gynllwynio neu ysgogi i'w chyflawni, neu
 - (b) cynorthwyo i gyflawni'r drosedd honno, neu annog, cwnsela neu beri ei chyflawni.

Gofalu am blant a throseddau yn erbyn plant neu oedolion

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (9), (10) ac (11) a rheoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwyso os yw unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (8) yn gymwys.

(2) Mae unrhyw un neu ragor o'r gorchmynion neu'r penderfyniadau eraill a bennir yn Atodlen 1 wedi eu gwneud—

- (a) mewn cysylltiad â P,
- (b) sy'n atal P rhag cael ei gofrestru mewn perthynas ag unrhyw gyfleuster y mae plant yn derbyn gofal ynddo neu rhag bod yn rhan o reoli unrhyw gyfleuster o'r fath neu rhag ymwneud fel arall â darparu unrhyw gyfleuster o'r fath, neu
- (c) mewn cysylltiad â phlentyn sydd wedi bod yng ngofal P.

(3) Mae gorchymyn wedi ei wneud mewn cysylltiad â P o dan adran 104 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003(8) er bod y drosedd wedi ei diddymu yng Nghymru a Lloegr.

(4) Mae P wedi ei gael wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn o fewn ystyr "offence against a child" yn adran 26(1) o Ddeddf 2000(9) er bod y drosedd wedi ei diddymu.

(5) Mae P—

- (a) wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 neu drosedd sy'n gysylltiedig â throsedd o'r fath, neu
- (b) yn dod o fewn paragraff 2 o'r Atodlen honno,

er gwaethaf y ffaith bod y troseddau statudol yn yr Atodlen honno wedi eu diddymu.

(6) Mae P wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd ac eithrio trosedd y cyfeirir ati ym mharagraff (4) neu (5) sy'n ymwneud ag anaf corfforol i blentyn neu farwolaeth plentyn.

(7) Mae P wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd a bennir yn Atodlen 3 neu drosedd sy'n gysylltiedig â throsedd o'r fath.

(8) Mae P—

- (a) wedi ei gael wedi cyflawni unrhyw drosedd, a gyflawnir yn erbyn person 18 oed neu'n hŷn, a grybwyllir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(10) neu drosedd sy'n gysylltiedig â throsedd o'r fath, neu

(7) Mewnosodwyd adran 66ZA o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) mewn perthynas â rhybuddiadau ieuencid gan adran 135 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 (p. 10) a daeth i rym ar 8 Ebrill 2013.

(8) 2003 p. 42. Diddymwyd adran 104 o ran Cymru a Lloegr gan adran 113(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 (p. 12) ("Deddf 2014") a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 5 iddi. Mae adran 104 yn parhau mewn grym yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban ond mae'n ddarostyngedig i'w diddymu yn yr Alban gan adran 39(1)(a) o Ddeddf Ymddygiad Camdriniol a Niwed Rhywiol (Yr Alban) 2016 (dsa 22) ("Deddf 2016"). Am ddarpariaethau trosiannol ac arbedion gweler adran 114(1), (2), a (4) i (6) o Ddeddf 2014 ac adran 40 o Ddeddf 2016.

(9) Diddymwyd adran 26 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2012/2231.

(10) Diddymwyd Atodlen 4 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi.

(b) wedi ei gyhuddo o unrhyw drosedd, a gyflawnir yn erbyn person 18 oed neu'n hŷn, a grybwyllir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000 neu drosedd sy'n gysylltiedig â throdd o'r fath y mae uwchlys wedi gosod gorchymyn perthnasol mewn cysylltiad â hi, er gwaethaf y ffaith bod y troseddau statudol yn yr Atodlen honno wedi eu diddymu.

(9) Nid yw P wedi ei anghymhwysu o dan baragraffau (1) i (8) mewn cysylltiad ag unrhyw orchymyn, penderfyniad neu drosedd—

- (a) os yw P wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn y gorchymyn, y penderfyniad neu'r euogfarn,
- (b) os yw rhybuddiad mewn cysylltiad â'r drosedd honno wedi ei dynnu'n ôl neu ei osod o'r neilltu,
- (c) os yw cyfarwyddyd sy'n seiliedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar y drosedd wedi ei ddirymu, neu
- (d) os yw gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 12 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(11) neu adran 79 neu 80 o'r Cod Dedfrydu(12) sy'n rhyddhau P yn ddiamod neu'n amodol mewn cysylltiad â'r drosedd honno.

(10) Nid yw P wedi ei anghymhwysu yn rhinwedd paragraff (2)—

- (a) os yw gorchymyn wedi ei wneud o dan Ddeddf 1989 y lleolwyd P yng ngofal awdurdod lleol dynodedig neu gorff tebyg neu o dan oruchwyliaeth awdurdod neu gorff o'r fath odano, oni bai bod gorchymyn hefyd wedi ei wneud o ganlyniad i ofal P am ei blentyn ei hun, neu
- (b) pan fo P yn ofalwr maeth neu'n rhiant mabwysiadol i blentyn, a bo'r plentyn hwnnw yn cael neu wedi cael ei wneud yn destun gorchymyn gofal neu oruchwyllo o dan Ddeddf 1989, oni bai bod y gorchymyn wedi ei wneud o ganlyniad i ofal P am y plentyn hwnnw.

(11) Nid yw P wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru yn rhinwedd paragraff (2) mewn cysylltiad â gwrthod neu ganslo unrhyw gofrestrriad o dan y darpariaethau a nodir ym mharagraff 23(c) o Atodlen 1—

- (a) os yw'r gwrthod neu'r canslo mewn cysylltiad â chofrestru ag asiantaeth gwarchod plant, neu
- (b) os yr unig reswm dros wrthod neu ganslo'r cofrestriad oedd methu â thalu unrhyw ffi a ragnodir o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(13).

Troseddau tramor

4.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwysu os yw P wedi ei gael wedi gwneud gweithred—

- (a) a oedd yn drosedd o dan y gyfraith a oedd mewn grym mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a
- (b) a fyddai'n drosedd a'i gwnâi'n ofynnol anghymhwysu person rhag cofrestru o dan y Rheoliadau hyn pe bai wedi ei gwneud mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

(2) Ym mharagraff (1), mae P "wedi ei gael wedi gwneud gweithred a oedd yn drosedd" os yw'r canlynol wedi digwydd o dan y gyfraith a oedd mewn grym mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig—

- (a) mae P wedi ei euogfarnu o drosedd (pa un a yw P wedi ei gosbi amdani ai peidio),

(11) 2000 p. 6. Diddymwyd adran 12 gan adran 413 o Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17) ac Atodlen 28 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn adrannau 412 a 416(7) a pharagraffau 1, 2, 4 a 5 o Atodlen 27.

(12) Mae adran 1(1) o Ddeddf Dedfrydu 2020 yn darparu bod Rhannau 2 i 13 o'r Ddeddf honno gyda'i gilydd yn ffurfio cod o'r enw'r "Sentencing Code".

(13) 1968 p. 34 (G.I.). Diddymwyd adran 127 gan erthygl 185(2) o O.S. 1995/755 (G.I. 2) ac Atodlen 10 iddo.

- (b) mae P wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throstedd,
- (c) mae llys sy'n arfer awdurdodaeth o dan y gyfraith honno wedi gwneud mewn cysylltiad â throstedd ganfyddiad sy'n gyfwerth â chanfyddiad bod P yn ddieuog oherwydd gorffwylledd, neu
- (d) mae llys o'r fath wedi gwneud mewn cysylltiad â throstedd ganfyddiad sy'n gyfwerth â chanfyddiad bod P o dan anabledd ac iddo wneud y weithred y cyhuddwyd P ohoni.

(3) Nid yw P wedi ei anghymhwysu o dan baragraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw ganfyddiad os yw'r canfyddiad hwnnw, o dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad o dan sylw, wedi ei wrthdroi.

(4) Mae gweithred sydd i'w chosbi o dan y gyfraith sydd mewn grym mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn drosedd o dan y gyfraith honno at ddibenion y rheoliad hwn ym mha ffordd bynnag y'i disgrifir yn y gyfraith honno.

Rhestr y Ddeddf Amddiffyn Plant

5. Mae person sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999⁽¹⁴⁾ (rhestr o'r rheini y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant) wedi ei anghymhwysu.

Cyfarwyddyd mewn perthynas â chyflogi athrawon etc.

6.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwysu os yw unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn yn y rheoliad hwn yn gymwys i P.

(2) Mae P yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd.

(3) Mae enw P ar unrhyw restr a gedwir at ddibenion rheoliadau a wneir o dan erthygl 70(2)(e) neu 88A(1) a (2)(b) o Orchymyn Addysg a Llyfrgelloedd (Gogledd Iwerddon) 1986⁽¹⁵⁾.

Personau sydd wedi eu gwahardd rhag gweithgarwch rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant

7. Mae person sydd wedi ei wahardd rhag gweithgarwch rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o fewn ystyr "barred from regulated activity relating to children" yn adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 wedi ei anghymhwysu.

Personau sy'n byw neu'n gweithio mewn mangre lle y mae person sydd wedi ei anghymhwysu yn byw

8. Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwysu os yw P—

- (a) (i) yn byw ar yr un aelwyd â pherson arall sydd wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru, neu
- (ii) yn byw ar aelwyd y mae unrhyw berson o'r fath wedi ei gyflogi ynddi, a
- (b) yn gweithredu neu'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant mewn mangre ddomestig a ddefnyddir gan yr aelwyd y mae P yn aelod ohoni.

Hepgoriadau

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fyddai person ("P") wedi ei anghymhwysu yn rhinwedd rheoliad 3, 4, 6(1) a (3), neu 8 ond wedi datgelu i Weinidogion Cymru y ffeithiau a fyddai fel arall yn achosi bod P wedi ei anghymhwysu, a phan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad

(14) 1999 p. 14. Diddymwyd adran 1 o'r Ddeddf hon gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2009/2611.

(15) O.S. 1986/594 (G.I. 3). Diwygiwyd erthyglau 70(2)(e) ac 88A(2)(b) gan O.S. 2007/1351 (G.I. 11).

ysgrifenedig ac na fônt wedi tynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl, yna nid yw'r person, oherwydd y ffeithiau a ddatgelwyd felly, i'w ystyried fel pe bai wedi ei anghymhwyso at ddiben y Rheoliadau hyn.

(2) Mewn perthynas â pherson a fyddai wedi ei anghymhwyso yn rhinwedd rheoliad 3(4), nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo llys wedi gwneud gorchymyn o dan adran 28(4), 29(4) neu 29A(2) o Ddeddf 2000(16).

(3) Nid yw person wedi ei anghymhwyso os yw'r person, cyn 1 Ebrill 2002—

- (a) wedi datgelu'r ffeithiau a fyddai'n anghymhwyso'r person o dan y Rheoliadau hyn i awdurdod lleol priodol o dan baragraff 2 o Atodlen 9 i Ddeddf 1989(17), a
- (b) wedi cael cydsyniad ysgrifenedig yr awdurdod lleol hwnnw.

Apelau

10. Mae unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru o ran pa un ai i roi cydsyniad i hepgor anghymhwyso o dan reoliad 9(1) yn benderfyniad rhagnodedig at ddibenion adran 37(2) (a) o'r Mesur (apelau).

Dyletswydd datgelu

11.—(1) Rhaid i berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur ("person cofrestredig") ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i Weinidogion Cymru—

- (a) manylion unrhyw orchymyn, penderfyniad, euogfarn neu sail arall dros anghymhwyso rhag cofrestru a wneir neu sy'n gymwys mewn perthynas â pherson a restrir ym mharagraff (2) sy'n golygu bod y person hwnnw wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru o dan y Rheoliadau hyn;
- (b) y dyddiad pryd y gwnaed y gorchymyn, y penderfyniad neu'r euogfarn neu pryd y cododd unrhyw sail arall dros anghymhwyso rhag cofrestru;
- (c) y corff neu'r llys a wnaeth y gorchymyn, y penderfyniad neu'r euogfarn a'r ddeddfryd, os oes un, a osodwyd;
- (d) mewn perthynas â gorchymyn neu euogfarn, copi o'r gorchymyn perthnasol neu'r gorchymyn llys perthnasol a ardystiwyd gan y corff dyroddi neu'r llys dyroddi.

(2) Y personau y mae rhaid darparu'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) mewn cysylltiad â hwy yw—

- (a) y person cofrestredig, a
- (b) unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â'r person cofrestredig neu sydd wedi ei gyflogi yn yr aelwyd honno.

(3) Rhaid darparu'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond beth bynnag o fewn 14 o ddiwrnodau i'r adeg pan ddaeth y person cofrestredig yn ymwybodol o'r wybodaeth honno neu pan ddylai fod wedi dod yn ymwybodol yn rhesymol ohoni pe bai'r person cofrestredig wedi gwneud ymholiadau rhesymol.

(4) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (2)(b) ond yn gymwys mewn cysylltiad ag aelodau'r aelwyd neu'r rheini sydd wedi eu cyflogi yn aelwyd gwarchodwr plant cofrestredig.

(16) Diddymwyd adrannau 28(4), 29(4) a 29A(2) gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac Atodlen 10 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 5 o O.S. 2012/2231.

(17) Diddymwyd Atodlen 9 o ran Cymru a Lloegr gan adran 79(5) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14) ac o ran yr Alban gan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 (dsa 8) ac Atodlen 4 iddi.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw honiad bod person cofrestredig wedi methu â bodloni gofynion y rheoliad hwn wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur (gan gynnwys canslo cofrestriad yn unol ag adran 31(1) o'r Mesur).

(6) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofynion y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

(7) Mae person a ddyfernir yn euog o drosedd o dan y rheoliad hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Dirymu a diwygiad canlyniadol

12.—(1) Mae Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022 wedi eu dirymu⁽¹⁸⁾.

(2) Yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010⁽¹⁹⁾, yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “wedi ei anghymhwyso”, ym mharagraff (a) ar ôl “(Anghymhwyso)” mewnosoder “(Rhif 2)”.

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o
Weinidogion Cymru

14 Tachwedd 2022

⁽¹⁸⁾ O.S. 2022/1066 (Cy. 224). Dirymodd y Rheoliadau hyn Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1703 (Cy. 163)).

⁽¹⁹⁾ O.S. 2010/2574 (Cy. 214).